DATGANIAD I'R WASG

Mae tair merch ifanc o Wynedd ar fin ymgymryd â her fwyaf eu bywydau yn enw elusen.

Mae Sarah Riley a Sonia Collis o'r Felinheli, a Helen Parry o Bwllheli yn bwriadu mentro ar daith enwog Kilimanjaro yr adeg yma'r flwyddyn nesaf, ac yn gobeithio codi swm syfrdanol o £10,500 erbyn mis Tachwedd eleni gan roi'r holl arian i'r hosbis plant lleol, Tŷ Gobaith.

Dywedodd Sarah Riley ar ran y tîm Kilimanjaro, "Roeddem eisiau codi arian i Tŷ Gobaith ac yn meddwl y byddem yn fwy penderfynol o wneud hynny pe byddem yn wynebu her."

Mae Hosbis Plant Tŷ Gobaith yn gofalu am blant a phobl ifanc sy'n derfynol wael a'u teuluoedd yn yr Hosbis neu yn eu cartrefi eu hunain; Tŷ Gobaith yw'r unig Hosbis Plant yng Ngogledd Cymru ac mae'n dibynnu ar gefnogaeth y cyhoedd a busnesau lleol i ariannu'r costau blynyddol o'i redeg, sef £1 Miliwn.

Meddai Sarah "Byddwn yn hedfan i Tanzania ym mis Chwefror 2010 ac mae'r daith gyfan yn para 8 diwrnod. Bydd y daith yn galed iawn gan y byddwn yn dringo am hyd at 8 awr y dydd. Mae'r ffaith ein bod yn dringo mor uchel yn gwneud y daith yn llawer anoddach ac mae'r tair ohonom yn gobeithio na wnaiff hyn ein rhwystro rhag cyrraedd y copa."

Dywedodd Katrina Cameron, Swyddog Codi Arian yr Ardal dros Tŷ Gobaith, "Mae cael cefnogaeth gan y cyhoedd yn hanfodol i Tŷ Gobaith ac yr ydym mor ddiolchgar i'r merched sy'n bwriadu dringo Kilimanjaro, nid yn unig gan eu bod yn gobeithio codi swm sylweddol o arian, ond hefyd gan eu bod yn ddewr iawn. Yr wyf yn dymuno pob lwc iddynt wrth godi arian a hyfforddi dros y flwyddyn i ddod a'r flwyddyn nesaf."

Bwriedir cynnal digwyddiad codi arian ar 25ain Ebrill yn Neuadd Goffa Y Felinheli. Dywedodd Sonia Collis "Rydym wedi galw'r noson yn Waffrica gan y bydd yn cyfuno dylanwadau o Gymru ac Affrica er mwyn creu noson hwyliog o adloniant. Bydd menyw o Dde Affrica yn coginio Cyri Cig Oen Cymreig - rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i'w flasu ac mae'n hyfryd. Bydd Nebs Chikanza, canwr acwstig Affricanaidd, a'r band African Link yn perfformio, yn ogystal â DJ Byd Mawr sy'n chwarae cerddoriaeth wahanol o bob cwr o'r byd, a bydd Derwyddon Dr Gonzo, band llwyddiannus iawn o Gymru yn cloi'r noson."

Mae tocynnau ar gyfer y digwyddiad hwn yn costio £12.00, mae hyn yn cynnwys y bwyd. Os hoffech brynu tocynnau ffoniwch 07825 748897.

I gael gwybod sut y gallwch noddi'r merched ffoniwch y rhif ffôn uchod neu ewch i www.bmycharity.com/challenges-kilimanjaro-trek.aspx. Gallwch hefyd anfon e-bost at Katrina@tygobaith.org.uk

- DIWEDD -